Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer System Monitro Cychod: data lleoliad

Yn esbonio sut rydym yn defnyddio'r data rydych wedi'i ddarparu i ni.

Cyhoeddwyd gyntaf: 1 Chwefror 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 1 Chwefror 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-ar-gyfer-system-monitro-cychod-data-lleoliad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

[Pam fod angen i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol?]

[Ar gyfer beth fyddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol?]

[Beth yw'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer y newid hwn?]

[Pwy fydd yn gallu gweld fy ngwybodaeth bersonol?]

[Am ba hyd y cedwir fy ngwybodaeth bersonol?]

[Eich hawliau]

[Gwybodaeth gyswllt]

[Newidiadau i'r polisi hwn]

Mae System Monitro Llongau y Glannau (IVMS) yn system fonitro sy'n seiliedig ar GPS sy'n darparu data i'r Awdurdod Pysgodfeydd yn rheolaidd ar leoliad, cwrs a chyflymder cychod. Mae'r ddyfais yn casglu data i fonitro ymddygiad cychod pysgota mewn amser real. Mae angen gosod dyfeisiau monitro ar unrhyw gwch pysgota sy'n llai na 12 metr o hyd sy'n gweithredu o fewn dyfroedd Cymru o dan Orchymyn Gweithrediadau Pysgota Môr (Dyfeisiau Monitro) (Cymru) 2022.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-ar-gyfer-system-monitro-cychod-data-lleoliad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Pam fod angen i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol?

Er mwyn sicrhau bod eich llong yn cydymffurfio â'r Gorchymyn, mae angen i Lywodraeth Cymru brosesu rhywfaint o wybodaeth bersonol amdanoch. Mae prosesu'r wybodaeth yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei thasg gyhoeddus ac arfer ei hawdurdod swyddogol. Bydd Llywodraeth Cymru yn Rheolwr Data ar gyfer gwybodaeth bersonol a brosesir mewn perthynas â'r iVMS.

Y data a drosglwyddir gan y ddyfais fonitro yw:

- rhif cyfresol unigryw'r ddyfais fonitro
- safle daearyddol
- dyddiad ac amser ar bob safle daearyddol
- cyflymder a chwrs y cwch bryd hynny

Cofnodir y data hwn ar gronfa ddata a gynhelir gan Gyflenwr ar ran Llywodraeth Cymru. Bydd cofrestr o rifau cyfresol dyfeisiau a dynodau cychod yn cael eu cynnwys ar yr un platfform.

# Ar gyfer beth fyddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol?

Bydd Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn prosesu eich data i fonitro, gorfodi, ac ar gyfer gwyddoniaeth a rheoli pysgodfeydd at ddibenion swyddogaethau statudol a pholisi'r Gweinyddiaethau. Mae cyfnewid data personol rhwng Gweinyddiaethau at ddibenion rheoli, cynllunio, gwyddoniaeth a gorfodi'r gyfraith ar y môr ac mewn pysgodfeydd yn y Deyrnas Unedig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-ar-gyfer-system-monitro-cychod-data-lleoliad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Beth yw'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer y newid hwn?

Y sail ddeddfwriaethol ar gyfer y newid hwn yw adran 5(1) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud darpariaeth ar gyfer rheoleiddio'r gwaith pysgota a'r gweithrediadau sy'n ategol iddynt, a'u gwarchod, gan gynnwys darpariaeth mewn perthynas ag adnabod a marcio cychod pysgota ac offer pysgota. Bydd Gorchymyn Gweithrediadau Pysgota Môr (Dyfeisiau Monitro) (Cymru) 2022 yn cael ei gyflwyno ar 15 Chwefror 2022 i'r perwyl hwnnw.

## Pwy fydd yn gallu gweld fy ngwybodaeth bersonol?

- Gellir datgelu eich data safle i asiantau awdurdodedig Llywodraeth Cymru, adrannau/rheoleiddwyr pysgodfeydd eraill yn y DU ac adrannau eraill y llywodraeth, awdurdodau perthnasol y Comisiwn Ewropeaidd, Aelod-wladwriaethau eraill a thrydydd gwledydd.
- Bydd eich data safle ar gael, ar gais, i wylwyr y glannau yn y DU at ddibenion chwilio ac achub.
- Gall eich data safle hefyd gael ei gyhoeddi neu ei ddatgelu ar ffurf ddienw a/neu gyfunol, i sefydliadau, cyrff neu bersonau eraill at ddibenion eraill, gan gynnwys ymchwil wyddonol.
- Bydd fersiwn ddienw a chyfanredol o'r data yn cael ei hychwanegu at y Porth Cynllunio Morol, sydd ar gael i'r cyhoedd.
- Mae gan Ganolfan Monitro Pysgodfeydd y DU y gallu i ofyn am adroddiadau safle ar sail ad hoc a holi adroddiadau a gedwir yng nghof mewnol y ddyfais VMS at ddiben monitro a gorfodi.

Gellir rhannu data lleoliadau cychod gyda'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Faterion Morol a Physgodfeydd (DG-MARE) Comisiwn yr UE mewn achosion

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-ar-gyfer-system-monitro-cychod-data-lleoliad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

penodol, e.e. monitro gweithgareddau pysgodfeydd mewn cyd-destun rhyngwladol ehangach neu fel rhan o ymchwiliad penodol.

Yng nghyd-destun cytundebau rhyngwladol, caiff data IVMS eu cyfnewid drwy sianeli diogel gyda thrydydd gwledydd a sefydliadau rhyngwladol (Sefydliadau Rheoli Pysgodfeydd Rhanbarthol - RFMOs) a dim ond mewn systemau diogel y cânt eu rheoli a'u defnyddio at ddibenion arolygu a gwyliadwriaeth yn unig.

Os bydd eich dyfais IVMS yn rhoi'r gorau i weithredu, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio hysbysu'r sgip neu'r perchennog. Yn hytrach na thynnu eich dyfais i'w hatgyweirio neu ei hadnewyddu, gellir datrys y mater o bell weithiau, felly byddai eich manylion cyswllt yn cael eu rhannu gyda chyflenwr y ddyfais i wneud diagnosis o'r mater gyda'r sgiper neu'r perchennog.

Cyn i'r system fynd yn fyw, gall eich dyfais gyfleu data profion dienw o bryd i'w gilydd.

## Am ba hyd y cedwir fy ngwybodaeth bersonol?

Bydd Data IVMS yn cael ei gadw gan Lywodraeth Cymru cyhyd ag y bo angen ar gyfer cydymffurfiaeth statudol, dibenion archwilio, gwneud penderfyniadau gweithredol, modelu gweithgarwch yn y dyfodol neu adolygu gweithgareddau yn y gorffennol.

## Eich hawliau

Mae mynediad at ddata IVMS yn cael ei reoli'n llym. Fodd bynnag, o dan **Ddeddf Diogelu Data 2018** gall perchnogion cychod ofyn am gael gweld eu data IVMS. Gall cynrychiolwyr llongau, gan gynnwys meistri, hefyd ofyn am ddata IVMS os oes ganddynt ganiatâd y perchennog i wneud hynny.

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gafael ar y data personol sydd gan Lywodraeth Cymru arnoch

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-ar-gyfer-system-monitro-cychod-data-lleoliad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- ei gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- i (mewn rhai amgylchiadau) wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu
- i'ch data (mewn rhai amgylchiadau) gael ei 'ddileu'
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sy'n rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

## Gwybodaeth gyswllt

I gael gwybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru yn rheoli eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

E-bost: **DataProtectionOfficer@gov.cymru**

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru
2il Lawr
Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

**Ffôn**: 029 2067 8400

**Ffacs**: 029 2067 8399

**E-bost**: **wales@ico.org.uk**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-ar-gyfer-system-monitro-cychod-data-lleoliad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Newidiadau i'r polisi hwn

Gall Llywodraeth Cymru wneud newidiadau i'r polisi preifatrwydd hwn ar unrhyw adeg a byddwch yn cael gwybod am unrhyw newidiadau ar unwaith.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-ar-gyfer-system-monitro-cychod-data-lleoliad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn gopi o’r dudalen we **Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer System Monitro Cychod: data lleoliad** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-ar-gyfer-system-monitro-cychod-data-lleoliad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-ar-gyfer-system-monitro-cychod-data-lleoliad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.